# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ**

**Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 3 Hydref 2017

Amser: 08.30 - 08.52

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC (Cadeirydd)<br>Jane Hutt AC<br>Paul Davies AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Gareth Bennett AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Rhuanedd Richards, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Byddai'r Cyfnod Pleidleisio ar ôl yr eitem olaf o fusnes.

**Dydd Mercher**

- Cytunodd y Rheolwyr Busnes y byddai'r Cyfnod Pleidleisio yn cael ei gynnal cyn y Ddadl Fer.

### 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 25 Hydref 2017 –**

- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Cymunedau yn Gyntaf – yr hyn a ddysgwyd (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Amserlen ar gyfer ystyried Bil Iechyd y Cyhoedd (Pris Isaf am Alcohol) (Cymru)

- Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor i gyfeirio Bil Iechyd y Cyhoedd (Pris Isaf am Alcohol) (Cymru) i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 1.

- Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i ymgynghori ar amserlen ar gyfer Cyfnod 1 a Chyfnod 2.

## 5 Y Pwyllgor Busnes

### 5.1 Hynt y gwaith o adolygu'r Rheolau Sefydlog

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gynnal adolygiadau o Gwestiynau Llafar y Cynulliad a chanllawiau ar gynnal trafodion y Cynulliad fel rhan o'i raglen waith weithdrefnol, yn ychwanegol at y deg adolygiad arall a oedd ar y gweill a nodwyd eisoes.

## 6 Pwyllgorau

### 6.1 Effaith ymadawiad Aelod â grŵp gwleidyddol

Trafododd y Rheolwyr Busnes y materion a godwyd yn y papur ond ni allent gytuno ar unrhyw benderfyniadau.

O ran dyrannu Cadeiryddion, dywedodd y Llywydd nad yw'r sefyllfa bresennol yn cydymffurfio â'r Rheolau Sefydlog, a bod yn rhaid ei datrys. Gofynnodd y Llywydd i Reolwyr Busnes roi mwy o ystyriaeth i sut y gellid gwneud hyn mewn modd sy'n cydymffurfio â'r Rheolau Sefydlog, a byddai'n rhoi'r papur ar Agenda'r wythnos nesaf.

## 7 Y Cyfarfod Llawn

### 7.1 Papur i'w nodi - Datganiad ar y Gyllideb Ddrafft, treialu dull newydd

Nododd y Rheolwyr Busnes y papur. Nododd y Llywydd y byddai'r Cadeirydd yn sicrhau bod cymaint o Aelodau Cynulliad â phosibl yn cael eu galw, ac y byddai'r eitem yn debygol o gymryd mwy o amser na'r hyn oed wedi'i neilltuo. Cytunodd Arweinydd y Tŷ i newid yr amser a neilltuwyd i'r eitem i 90 munud.

# 8 Deddfwriaeth

## 8.1 Papurau i'w nodi - llythyrau at Gadeiryddion y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethiol a'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ynghylch Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

Nododd y Rheolwyr Busnes y llythyrau.